# AWDURDOD TRWYDDEDU CYNGOR SIR CEREDIGION

Deddf Llywodraeth Leol (Amrywiol) 1976

Rhan II

Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847

## Dyletswyddau Gweithredwr Busnes Hurio Preifat

Bydd y gweithredwr yn rhoi sylw i'r telerau a'r amodau a ganlyn, a chydymffurfio â nhw, o ran gweithredu busnes hurio preifat:

### 1. AMODAU CYFFREDINOL

i) Ni chaiff trwydded gweithredwr ei rhoi hyd nes i'r ffi briodol gael ei thalu. Os caiff y taliad ei wneud drwy siec a gaiff ei gwrthod yn ddiweddarach, bydd unrhyw drwydded a roddwyd yn ddi-rym.

ii) Cyn i drwydded gweithredwr busnes hurio preifat gael ei rhoi, rhaid i'r ymgeisydd, sef gweithredwr y cwmni hurio preifat, gwblhau cais gan ddefnyddio'r ffurflen a bennir gan yr Awdurdod a'i chyflwyno i'r Awdurdod Trwyddedu.

iii) Caiff pob cais ei drin yn ôl ei rinwedd ei hun a bydd y drwydded yn parhau i fod mewn grym am gyfnod o hyd at bum [5] mlynedd oni chaiff ei hatal dros dro, ei thynnu yn ôl neu'i dirymu gan yr Awdurdod Trwyddedu neu ei hildio gan y gweithredwr.

iv) Y gweithredwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod cais i adnewyddu trwydded yn cael ei gyflwyno mewn da bryd cyn y dyddiad y daw'r drwydded i ben oherwydd nid oes cyfnod awtomatig o ras ar gael. Gall unrhyw gais sy'n dod i law ar ôl i'r drwydded ddod i ben gael ei drin fel cais newydd. Mae'r AT o'r farn bod 30 diwrnod cyn y dyddiad y daw'r drwydded i ben yn ddigonol, fodd bynnag, nid yw'n gyfrifol am unrhyw oedi a all ddigwydd o ganlyniad i wallau, ceisiadau anghyflawn neu resymau eraill y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod.

v) Rhaid bod gweithredwr busnes hurio preifat yn berson addas a phriodol fel y'i pennir gan Feini Prawf Ffitrwydd Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer Cerbydau Hurio Preifat a Cherbydau Hacni - Atodiad E i'r Polisi Cyffredinol hwn. Felly, mae'n ofynnol iddo/iddi gyflwyno'r dogfennau canlynol i'r AT pan fydd yn gwneud cais i gael trwydded neu i adnewyddu trwydded:
   a. Tystysgrif a roddwyd yn dilyn archwiliad meddygol i'r safon a nodir yng nghanllawiau grŵp 2 D4 y DVLA. Rhaid i'r tystysgrifau meddygol sy'n ofynnol gan yr Awdurdod hwn gael eu paratoi gan -
      i) Ymarferydd Cyffredinol cymwysedig
      ii) Ymgynghorydd
      * a chanddo fynediad llawn at holl gofnodion meddygol yr ymgeisydd.
   b. Dau ganolwr y caiff yr Awdurdod Trwyddedu ysgrifennu atynt i gael geirda. Rhaid bod y canolwyr wedi adnabod yr ymgeisydd am o leiaf ddwy flynedd. Ni ddylai'r unigolion hyn fod yn gysylltiedig â theulu'r ymgeisydd neu'r diwydiant cerbydau hacni neu gerbydau hurio preifat. Dylai'r ddau ganolwr fod yn aelodau amlwg o'r gymuned; er enghraifft, Ynad, Cyfreithiwr, Athro neu Glerigwr ac ati.
   c. Dau lun diweddar o faint pasbort. Ystyr "diweddar" yn yr achos hwn yw llun a dynnwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.
   d. Gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi'i gwblhau a'i gyflwyno trwy'r AT.

vi) Rhaid i'r gweithredwr roi i'r Awdurdod Trwyddedu fanylion y safle y bydd y busnes hurio preifat yn gweithredu ohono, y cyfeiriad lle y cedwir y cerbydau trwyddedig, a manylion y cyfleusterau a ddarperir i atgyweirio ac i gynnal a chadw'r cerbydau. Rhaid iddo/iddi fodloni'r Awdurdod Trwyddedu fod y safle'n cydymffurfio â'r gofynion statudol perthnasol. Bydd y gweithredwr yn

cael unrhyw ganiatâd cynllunio sy'n angenrheidiol ar gyfer y safle a ddefnyddir mewn perthynas â'r gwaith o weithredu cerbydau hurio preifat, ac ni chaiff ymwneud â gweithrediadau o'r fath, eu caniatáu na gadael iddynt ddigwydd hyd nes i'r caniatâd cynllunio angenrheidiol gael ei roi. Os bydd gweithredwr yn torri'r caniatâd cynllunio neu'r gofynion cynllunio, tybir ei fod wedi torri amodau trwydded y gweithredwr.

vii) Rhaid bod modd i'r gweithredwr/ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ei fod yn cyflawni'r rhan fwyaf o'i waith yn sir Ceredigion.

## 2. DYLETSWYDDAU'R GWEITHREDWR O RAN Y CERBYD

i) Rhaid i weithredwr y cerbyd fodloni'r Awdurdod Trwyddedu fod pob cerbyd a ddefnyddir i gyflawni dyletswyddau ar ran y busnes wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Tollau a Chofrestru Cerbydau 1994 a bod polisi yswiriant ar waith mewn perthynas â defnyddio'r cerbyd(au) neu'r fflyd, a hynny ar sail holl gynhwysfawr sy'n caniatáu iddynt gael eu defnyddio "i gludo teithwyr am dâl" a/neu at ddibenion "hurio preifat".

ii) Rhaid i ddeiliad y drwydded ddarparu a chadw cofrestr addas lle y mae'n rhaid nodi'r manylion a ganlyn ar gyfer pob cerbyd o dan ei reolaeth:-

a) Gwneuthuriad a model y cerbyd,
b) Ei rif cofrestru,
c) Y dyddiad prynu,
d) Newidiadau i ddyluniad neu adeiledd a'r dogfennau perthnasol sydd wedi'u hatodi iddynt.
e) Dyddiad gwerthu/dinistrio,
f) Enw a chyfeiriad y prynwr newydd,

a rhaid iddo ddarparu'r gofrestr honno os bydd un o Swyddogion Awdurdodedig yr Awdurdod neu Wasanaeth yr Heddlu yn gofyn amdani.

iii) Bydd y gweithredwr yn sicrhau bod rhif y drwydded yn cael ei osod a'i arddangos ar y cerbyd bob amser pan fydd y cerbyd wedi'i drwyddedu fel cerbyd hurio preifat. Rhaid arddangos y rhif hwn drwy gyfrwng plât trwydded y bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ei roi i'r gweithredwr pan fydd yn talu blaendal. Pennir swm y blaendal gan Gyngor Sir Ceredigion.

iv) Drwy gydol y cyfnod y bydd cerbyd wedi'i drwyddedu fel cerbyd hurio preifat, rhaid arddangos ar y cerbyd hurio preifat blât hanner cylch MELYN a roddir gan yr Awdurdod Trwyddedu pan fydd y gweithredwr yn talu blaendal. Rhaid i'r gweithredwr sicrhau bod y plât trwydded wedi'i osod a'i arddangos ar gefn y cerbyd, naill ai'n union uwchlaw neu islaw'r bymper, mewn safle nad yw'n gorchuddio rhif cofrestru'r cerbyd, gan sicrhau bod y manylion yn wynebu allan mewn modd a man sy'n sicrhau bod y plât i'w weld yn glir yng ngolau ddydd o'r ffordd tu ôl i'r cerbyd.

v) Rhaid i'r gweithredwr ddychwelyd y plât trwydded i'r Awdurdod Trwyddedu cyn pen saith [7] diwrnod ar ôl i'r drwydded ddod i ben, cael ei dirymu, neu ei hildio. Caiff y blaendal ei ad-dalu oni bai fod angen platiau newydd yn eu lle. Mae methu â dychwelyd y platiau yn drosedd o dan adran 58(2) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

vi) Rhaid rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu ar unwaith os aiff plât ar goll a rhaid cael plât newydd yn ei le drwy dalu ffi a bennir gan yr Awdurdod Trwyddedu.

vii) Nid oes unrhyw system yn ei lle i drosglwyddo trwydded cerbyd i gerbyd gwahanol.

viii) Dyletswydd y gweithredwr yw sicrhau bod gan unrhyw yrrwr a gyflogir ganddo hawl i yrru cerbyd sy'n perthyn i'r dosbarth cywir o gerbyd ac at ddibenion hurio preifat.

ix) Dim ond person a chanddo drwydded yrru ddeuol gyfredol a roddwyd gan Awdurdod Trwyddedu Ceredigion a gaiff yrru cerbyd hurio preifat wedi'i drwyddedu gan yr AT hwn. Bydd yr amod hwnnw'n gymwys ar bob adeg ac eithrio gan weithiwr garej y mae'r gweithredwr yn ei chyflogi i wneud gwaith atgyweirio a/neu waith cynnal a chadw ar y cerbyd yn rhoi prawf ar y cerbyd trwy ei yrru ar yr heol.

x) Rhaid i'r gweithredwr fodloni'r Awdurdod Trwyddedu fod gan bob gyrrwr a ddefnyddir i gyflawni dyletswyddau ar gyfer ac ar ran y busnes drwyddedau cyfredol a dilys a roddwyd gan yr Awdurdod hwn.

xi) Rhaid bod gan y gyrrwr/gyrwyr, y gweithredwr a'r cerbyd/au drwyddedau cyfredol a dilys a roddwyd gan yr Awdurdod hwn.

xii) Rhaid addasu amseroedd a llwybrau'r siwrneiau i gymryd tywydd gwael i ystyriaeth a rhaid rhybuddio'r huriwr ymlaen llaw os yw'n bosibl y bydd y siwrnai'n hirach oherwydd cyflwr y ffordd.

xiii) Rhaid i'r gweithredwr sicrhau bod y taflenni diffygion dyddiol yn cael eu cwblhau cyn i'w gyrwyr ddechrau ar eu siwrnai. Os bydd mwy nag un gyrrwr yn defnyddio'r cerbyd ar ddiwrnod penodol, rhaid i'r gyrwyr eraill gyflawni'r gwiriadau hyn hefyd i sicrhau eu bod nhw a'u teithwyr yn ddiogel.

xiv) Rhaid cadw'r taflenni diffygion dyddiol ar ffeil am o leiaf chwe mis a rhaid iddynt fod ar gael i swyddog awdurdodedig eu gweld ar unrhyw adeg.

xv) Rhaid bod y cerbydau'n addas i'w defnyddio ym mhob tywydd.

xvi) Mae'r amodau hyn yn berthnasol i bob trwydded gweithredwr a gellir gofyn i'r Awdurdod Trwyddedu am gopi ohonynt.

xvii) Rhaid i'r gweithredwr sicrhau bod copïau o'r amodau sy'n berthnasol i weithredwyr, yr amodau sy'n berthnasol i yrwyr a'r amodau sy'n berthnasol i gerbydau'n cael eu harddangos yn ei swyddfa er mwyn i'r cyhoedd eu gweld.

xviii) Bydd unrhyw un sy'n cyflawni trosedd yn erbyn unrhyw un o ddarpariaethau'r amodau hyn, Rhan II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 neu Ddeddf Cymalau Heddluoedd Trefol 1846 fod yn agored i ddirwy os caiff gollfarn ddiannod.

## 3. ARWYDDION A HYSBYSEBION

i) Ni chaniateir peintio na gosod ffitiadau, arwyddion na hysbysebion ar y cerbyd, oni bai i'r Awdurdod Trwyddedu roi cymeradwyaeth ysgrifenedig.

ii) Ni chaniateir unrhyw hysbyseb allanol ar ffurf arwydd ar do'r cerbyd.

iii) Os oes arwydd wedi'i osod ar do'r cerbyd, rhaid tynnu'r arwydd oddi yno heb wneud difrod i'r cerbyd nac effeithio'n negyddol ar ei ymddangosiad, ei strwythur na'i ddiogelwch.

## 4. ARCHEBION

i) Rhaid trefnu teithiau / archebion ymlaen llaw drwy gyfrwng gweithredwr a drwyddedwyd gan yr Awdurdod hwn. Dim ond i weithredwyr sy'n bersonau addas a phriodol ac sy'n deall y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n rheoli'r defnydd o gerbydau at ddibenion hurio preifat y rhoddir trwydded o'r fath. Rhaid i weithredwyr trwyddedig sicrhau, cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, fod eu gyrwyr a'u cerbydau'n cydymffurfio â holl amodau'r drwydded a'r ddeddfwriaeth lywodraethu berthnasol.

ii) Rhaid i weithredwyr cerbydau hurio preifat gyfathrebu â'r cyhoedd wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, drwy neges destun neu e-bost a chyda'u gyrwyr wyneb yn wyneb neu drwy gyfrwng dyfeisiau radio dwyffordd.

iii) Mae gweithredwyr trwyddedig yn gyfrifol am roi gwasanaeth diogel a chwrtais i'w cleientiaid bob amser.

iv) Rhaid i'r gweithredwr ddefnyddio a chadw cofrestr addas lle y mae'n rhaid nodi'r manylion a ganlyn cyn dechrau pob taith:-

a) amser yr archeb
b) y man codi
c) enw'r huriwr
d) rhif trwydded a rhif cofrestru'r cerbyd a ddefnyddir
e) manylion y gyrrwr
f) y ffi a godir

Rhaid cadw'r cofnodion hyn mewn trefn gronolegol mewn llyfr wedi'i rwymo.

v) Dylid cadw cofnodion o'r fath am o leiaf 6 mis a rhaid eu bod ar gael i un o Swyddogion Awdurdodedig y Cyngor neu un o Gwnstabliaid yr Heddlu eu gweld os bydd yn gofyn i'w gweld. Os bydd angen, gellir cadw'r cofnodion hyn fel tystiolaeth.

vi) Nid oes angen mesurydd tacsi mewn cerbyd hurio preifat. Rhaid archebu pob taith ymlaen llaw a rhaid cadw log o'r archebion hynny. Rhaid bod y log hwnnw ar gael i Swyddog Awdurdodedig ei weld ar unrhyw adeg.

Pan fo cerbyd hurio preifat wedi cael ei brydlesu a bod mesurydd tacsi eisoes wedi'i osod ynddo, gellir cadw'r mesurydd hwnnw hyd nes i gerbyd gael ei ddychwelyd, ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â defnyddio mesuryddion tacsi.

**DEDDF CYDRADDOLDEB 2010**

i) Disgwylir i weithredwyr gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 pan fyddant yn cynnig gwasanaethau cludo i deithwyr anabl. Mae amodau ar wahân yn berthnasol i gerbydau a addaswyd yn arbennig, a gellir lawrlwytho copïau o'r amodau o wefan Cyngor Sir Ceredigion neu gellir gofyn i'r AT am gopi.
ii) Mae gwahaniaethu o unrhyw fath yn annerbyniol. Caiff unrhyw honiad o wahaniaethu ei drin yn eithriadol o ddifrifol a gellir rhoi gwybod i'r Heddlu amdano. Yna, gall yr Awdurdod Trwyddedu adolygu'r drwydded i bennu a yw deiliad y drwydded yn parhau i fod yn berson addas a phriodol i gael trwydded o'r fath.

## 5. ARCHWILIO CERBYDAU

i) Rhaid i'r gweithredwr gydymffurfio ag unrhyw hysbysiad a roddir iddo gan unrhyw Swyddog neu Gwnstabl sy'n mynnu ei fod yn cyflwyno'r cerbyd i'w archwilio neu'i brofi ar amser ac mewn lle rhesymol er mwyn canfod a yw'r cerbyd yn ffit i'w ddefnyddio.

ii) Rhaid i'r gweithredwr dalu'r ffi sy'n gysylltiedig ag atgyweirio'r cerbyd a/neu'r prawf archwilio.

iii) Bydd y gweithredwr yn sicrhau nad yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio i gludo teithwyr am dâl hyd nes bod yr AT yn fodlon fod y cerbyd yn ffit i'w ddefnyddio.

iv) Gellir cymryd camau gorfodi yn erbyn y gweithredwr os canfyddir bod gan gerbyd ddiffygion a all beryglu diogelwch y cyhoedd.

## 6. CYFRIFOLDEBAU HYSBYSU

i) Rhaid i'r gweithredwr gydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol gan y Cyngor iddo ddod i gyfweliad mewn perthynas ag unrhyw dramgwydd, unrhyw anwaith neu unrhyw fethiant honedig arall i gydymffurfio â'i gyfrifoldebau statudol neu unrhyw fater arall mewn perthynas â'i waith fel gweithredwr cerbyd hurio preifat.

ii) Yn ystod cyfnod trwydded a roddwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu, os bydd y wybodaeth a ddarparwyd gan y gweithredwr i gael y drwydded yn newid am unrhyw reswm, rhaid rhoi gwybod ar unwaith i'r Awdurdod Trwyddedu yn ysgrifenedig am y newidiadau hynny.

iii) Rhaid i weithredwr unrhyw gerbyd trwyddedig, yn unol â'r gyfraith, roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw ddigwyddiad y mae'r cerbyd hwnnw'n rhan ohono sy'n achosi difrod sy'n effeithio ar ddiogelwch, perfformiad neu ymddangosiad y cerbyd, a hynny cyn pen deuddeg a thrigain [72] awr ar ôl y digwyddiad.

iv) Os bydd gweithredwr cerbyd hurio preifat y mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi rhoi trwydded cerbyd iddo'n trosglwyddo'i fuddiant yn y cerbyd hurio preifat i berson ac eithrio'r gweithredwr y mae ei enw'n ymddangos ar y drwydded, rhaid iddo roi gwybod yn ysgrifenedig i'r Awdurdod Trwyddedu cyn pen pedwar diwrnod ar ddeg [14] ar ôl trosglwyddo'r cerbyd, gan roi enw a chyfeiriad y sawl y mae'r cerbyd hurio preifat wedi'i drosglwyddo iddo.

v) Rhaid i weithredwyr roi gwybod i Swyddfa Drwyddedu'r Cyngor, yn ysgrifenedig, ar y ffurflen benodol, am unrhyw gollfarn am unrhyw drosedd, a hynny cyn pen pedwar diwrnod ar ddeg [14]. Yn achos dedfryd o garchar, dylid rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

## 7. AMRYWIOL

i) Mae dyletswyddau ar gyflogwyr o dan y gyfraith iechyd a diogelwch am weithgareddau gwaith ar y ffordd. Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 yn datgan bod rhaid i gyflogwyr sicrhau, cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, iechyd a diogelwch yr holl staff pan fyddant yn y gwaith. Rhaid i'r cyflogwr hefyd sicrhau nad yw iechyd a diogelwch eraill yn cael ei beryglu gan weithgareddau gyrru sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae pobl hunangyflogedig yn ysgwyddo cyfrifoldebau tebyg.

ii) Mae gweithredwr cerbyd yn ysgwyddo dyletswyddau o dan y gyfraith traffig ffyrdd, e.e. y Deddfau Traffig Ffyrdd amrywiol a'r Rheoliadau Cerbydau Modur (Gwneuthuriad a Defnydd) 1986 sy'n cael eu gweinyddu gan yr heddlu ac asiantaethau eraill fel yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA).

iii) Rhaid i weithredwyr sicrhau bod yr holl gerbydau a ddefnyddir mewn cyflwr mecanyddol da, yn lân ac yn addas i'r cyhoedd eu defnyddio.

iv) Y gweithredwr sy'n ysgwyddo'r ddyletswydd dros sicrhau bod gan ei yrwyr eu copi eu hunain o'r amodau trwydded yrru a bennwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu ar gyfer gyrwyr. Rhaid i'r gyrwyr ddeall a chyflwyno datganiad wedi'i lofnodi i'r Awdurdod Trwyddedig sy'n datgan eu bod wedi darllen a deall yr amodau sy'n berthnasol iddynt yn ystod cyfnod eu trwydded.

v) Rhaid i'r gweithredwr beri i focs cymorth cyntaf sy'n bodloni safon heb fod yn is na "Bocs Diwydiannol Maint 1", fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc (Cymorth Cyntaf) 1981 a wnaed o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974, gael ei gario yn y cerbyd a bod ar gael yn swyddfa'r gweithredwr.

vi) Rhaid i'r gweithredwr beri i ddiffoddydd tân effeithlon gael ei gario ar y cerbyd, a hwnnw o wneuthuriad ac o fath a gymeradwywyd gan Reoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

(Cymorth Cyntaf) 1981 a wnaed o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974, a rhaid iddo fod yn addas i'w ddefnyddio ar gerbydau modur. Rhaid i ddiffoddwr o'r fath gael ei osod yn y cerbyd mewn man sy'n hwylus i'w ddefnyddio a rhaid ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr da bob amser a rhaid nodi rhif cofrestru'r cerbyd arno mewn inc parhaol.

vii) Pan fydd cais am drwydded gweithredwr wedi cael ei gyfeirio at yr Is-bwyllgor Trwyddedu er mwyn iddo benderfynu arno, a bod yr ymgeisydd eisoes yn meddu ar drwydded o'r fath a roddwyd gan awdurdod lleol arall, rhaid i'r canllawiau a geir yn y polisi hwn gael blaenoriaeth dros ganllawiau unrhyw awdurdod lleol arall. Bydd yr amod hwn hefyd yn gymwys i ddeiliaid trwydded lle mae troseddau a thorri deddfwriaeth neu amodau yn barnu bod angen ei gyfeirio at yr Is-bwyllgor Trwyddedu i benderfynu a yw'n berson addas a phriodol i gael trwydded o'r fath.

**DEHONGLI**

Yn y drwydded a'r amodau hyn, onid yw'r testun a'r cynnwys yn gofyn fel arall -

Ystyr "Swyddog Awdurdodedig" yw un o Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu a awdurdodwyd yn ysgrifenedig at ddibenion yr amodau hyn.

Ystyr "yr Awdurdod Trwyddedu" yw Awdurdod Trwyddedu Cyngor Sir Ceredigion.

Mae i "Hurio Preifat" yr un ystyr ag a geir yn Neddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a Deddf Cymalau Heddluoedd Tref 1847.

Ystyr "arwydd trwydded" yw'r arwydd mewnol ac ystyr "plât trwydded" yw'r plât cefn a roddir gan yr Awdurdod Trwyddedu i ddangos bod y cerbyd yn gerbyd hurio preifat a drwyddedwyd yn briodol gan yr Awdurdod Trwyddedu.

Ystyr "gweithredwr" yw'r unigolyn neu'r unigolion neu'r corff a enwir ar y drwydded fel gweithredwr y cerbyd ac mae'n cynnwys rhan-weithredwr.

Ystyr "cerbyd" yw'r cerbyd hurio preifat y mae trwydded hurio preifat wedi'i rhoi ar ei gyfer.

Ystyr "mân ddiffygion" yw unrhyw ddiffyg, yn ôl disgresiwn y swyddog, sy'n peri bod angen rhoi hysbysiad atal dros dro wedi'i ohirio ar gyfer y cerbyd.

Term a ddefnyddir i ddisgrifio cerbyd nad yw'n ddiogel neu'n addas i'w ddefnyddio at y diben y bwriedir ei ddefnyddio yw "heb fod yn ffit".

Ystyr "Cerbyd at Ddibenion Arbennig (SPV)" yw cerbyd y bwriedir iddo gyflawni swyddogaeth y mae angen trefniadau a/neu gyfarpar arbennig ar ei chyfer. At ddibenion trwyddedu, mae'r categori hwn yn cyfeirio at Gerbydau sy'n Hygyrch i Gadeiriau Olwyn (WAV).

Ystyr "Categori M1" yw cerbydau a ddyluniwyd ac a adeiladwyd i gludo teithwyr ac sy'n cynnwys hyd at wyth sedd, yn ychwanegol at sedd y gyrrwr.

Ystyr "Cerbyd at Ddibenion Arbennig (SPV)" yw cerbyd y bwriedir iddo gyflawni swyddogaeth y mae angen trefniadau a/neu gyfarpar arbennig ar ei chyfer. At ddibenion trwyddedu, mae'r categori hwn yn cyfeirio at Gerbydau sy'n Hygyrch i Gadeiriau Olwyn (WAV).

Ystyr "Cerbyd sy'n Hygyrch i Gadeiriau Olwyn (WAV)" yw cerbyd categori M1 (yn unig) a adeiladwyd neu a addaswyd yn benodol er mwyn iddo allu cludo un neu ragor o bobl sy'n eistedd yn ei gadair olwyn / eu cadeiriau olwyn pan fyddant yn teithio ar y ffordd.

**CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

Deddf Llywodraeth Leol (Amrywiol) 1976

Rhan II

Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat

## Ffurflen hysbysu am gollfarnau, rhybuddiadau, rhybuddion ac ati

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llenwch y ffurflen gan ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU ac INC DU** | | | | | | | | |
| **Enw:** | | | | | | | | |
| **Cyfeiriad:** | | | | | | | | |
| **Cod post:** | | | | | | | | |
| **Dyddiad:** | D | D | M | M | B | B | B | B |
| **Rhif y drwydded yrru ddeuol** | | | | | | | | |
| **Rhif trwydded yrru'r DVLA** | | | | | | | | |
| **Trosedd:** | | | | | | | | |
| **Llys:** | | | | | | | | |
| **Dyddiad y drosedd:** | D | D | M | M | B | B | B | B |
| **Dyddiad y gollfarn:** | D | D | M | M | B | B | B | B |
| **Cosb:** | | | | | | | | |
| **Manylion y drosedd:** | | | | | | | | |
| **Trosedd:** | | | | | | | | |
| **Llys:** | | | | | | | | |
| **Dyddiad y drosedd:** | D | D | M | M | B | B | B | B |
| **Dyddiad y gollfarn:** | D | D | M | M | B | B | B | B |
| **Cosb:** | | | | | | | | |
| **Manylion y drosedd:** | | | | | | | | |
| **Trosedd:** | | | | | | | | |
| **Llys:** | | | | | | | | |
| **Dyddiad y drosedd:** | D | D | M | M | B | B | B | B |
| **Dyddiad y gollfarn:** | D | D | M | M | B | B | B | B |
| **Cosb:** | | | | | | | | |
| **Manylion y drosedd:** | | | | | | | | |
| **Llofnod:** **Dyddiad:** | D | D | M | M | B | B | B | B |

Rhaid llenwi'r ffurflen hon a'i chyflwyno i'r Awdurdod Trwyddedu cyn pen 14 diwrnod ar ôl dyddiad unrhyw gollfarn, rhybuddiad, rhybudd, cerydd, cosb neu ardystiad. Yn achos dedfryd o garchar, dylid rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Anfonwch y ffurflen at: Yr Adain Drwyddedu, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA ☎ 01545 572179